



POLISI

Date 1^{af} Hydref 2012

Title: Polisi Mynediad

Policy: Polisi Mynediad Hamdden Sir Benfro

- **Polisi Mynediad Plant i Bwll Nofio**

Rhaid i oedolyn cyfrifol, sydd o leiaf yn un deg chwech mlwydd oed fod gyda phlant sydd o dan 8 oed.

Bydd yr oedolyn cyfrifol yn mynd i'r dŵr gyda'r plant fydd yn eu cwmni, yn eu rheoli a'u gwyllo drwy'r amser a bod yn agos at y plant hynny sy'n nofwyr gwan neu sy'n methu nofio.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn tanlinellu y nifer uchaf o blant y gall un oedolyn cyfrifol ofalu amdanynt.

Nifer y plant oed 0 – 3	Nifer y plant oed 4 – 7	Ardaloedd a ganiateir
0	2	Unrhyw bwll / Mynediad Cyffredinol
1	0	Unrhyw bwll / Mynediad Cyffredinol
	3*	Yn ystod sesiwn 'Nofio i'r Teulu' strwythuredig
1*	2*	Yn ystod sesiwn 'Nofio i'r Teulu' strwythuredig
2*	0	Yn ystod sesiwn 'Nofio i'r Teulu' strwythuredig

*Gall Hamdden Sir Benfro drefnu ffurfiau eraill ar sesiynau strwythuredig sy'n caniatáu'r amrywiant yn y polisi mynediad plant. Caiff y rhain eu hysbysu'n glir wrth iddynt ddigwydd.

* Mae mynediad yn amodol ar y rhai sy ddim yn nofio yn gwisgo bandiau-braich neu gynorthwyon hynofiant addas sy'n briodol i oedran a gallu y plentyn. Cynghorir cwsmeriaid i ddefnyddio cynorthwyon sy'n cario nodau cutan neu sy'n cario rhif BS EN yn unig.

- **Polisi Mynediad Plentyn i Ganolfan Hamdden**

Caniateir mynediad i blant dan wyth oed i'r cyfleuster yn unig, os:

- Ydyn nhw yng nghwmni oedolyn cyfrifol sydd yn un deg chwech mlwydd oed a throsodd
- Ydyw'r oedolyn cyfrifol yn aros yn y cyfleuster trwy gydol mynediad y plentyn.

- **Ystafelloedd Newid**

Gall plant sy'n saith oed ac odditau fynd i mewn i ystafelloedd newid y "rhyw arall" dim ond os ydyn nhw yng nghwmni oedolyn cyfrifol sy'n un deg chwech oed a throsodd. Gall oedolion fynd i ystafelloedd newid eu rhyw eu hunain yn unig ac nid un y plentyn.

- **Ystafell Ffitrwydd**

Rhaid i holl ddefnyddwyr Ystafell Ffitrwydd Hamdden Sir Benfro gwblhau'r cwrs sefydlu Yr oed lleiaf posibl i fynediad heb oruchwyliaeth i unrhyw un o Ystafelloedd Ffitrwydd Hamdden Sir Benfro yw un deg chwech mlwydd oed. Yr oed lleiaf posibl i sesiynau o dan oruchwyliaeth yw 11 mlwydd oed.

- Rhaid i gwsmeriaid dan un deg chwech oed gael ffurflen ganiatâd wedi'i chwblhau gan riant neu ofalwr cyn cael mynediad i ystafell ffitrwydd..

- **Gofalwyr**

Rhywun sy'n helpu rhywun arall sy'n llai abl ydyw gofalwr, boed hwnnw neu honno yn cael eu talu neu beidio am y gwasanaeth hwn. Defnyddiwn y term "Defnyddiwr Gwasanaeth" i ddisgrifio'r person sy'n derbyn y cymorth hwn.

Gofalwyr sy'n mynychu gyda 'defnyddiwr gwasanaeth'

- Rhaid i bob Gofalwr fod yn ddefnyddwyr cofrestredig gyda Hamdden Sir Benfro
- Rhaid i Ofalwyr Cyflogedig arddangos rhyw ffurf adnabod perthnasol (cerdyn adnabod cyflogwr).
- Bydd gan Ofalwyr Cofrestredig sy'n cymryd rhan ochr yn ochr â'u defnyddiwr/wyr gwasanaeth hawl i gael mynediad am ddim. Os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn defnyddio'r ystafell ffitrwydd, rhaid bod y gofalwr wedi cwblhau'r cwrs sefydlu cyn hyn. Bydd Hamdden Sir Benfro yn darparu'r cwrs sefydlu yn rhad ac am ddim.

Gofalwyr sy'n mynychu heb 'ddefnyddiwr gwasanaeth'

- Bydd gan Ofalwyr Cofrestredig Di-dâl hawl i gael prisiau consesiynol ar gyfer pob gweithgaredd perthnasol unwaith y byddan nhw wedi cofrestru fel 'Gofalwr' gyda Hamdden Sir Benfro. Gallant wneud hyn trwy gwblhau ffurflen gofrestru Hamdden Sir Benfro a'i hanfon at PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) Pan ddychwelir y ffurflen gofrestru gan PAVS bydd y gofalwr di-dâl yn derbyn y statws consesiynol.
- Nid yw prisiau consesiynol yn gymwys i ofalwyr cyflogedig.